**Y Pwyllgor Menter a Dysgu**

**Adroddiad dilynol. Trefniadau Ariannu Ysgolion.**

**Ymateb y Llywodraeth.**

Rwyf yn gwerthfawrogi diddordeb parhaol y Pwyllgor mewn ariannu ysgolion ac roeddwn yn ddiolchgar am gael cyfle i gyflwyno tystiolaeth. Er hynny, rwyf yn siomedig bod yr adroddiad wedi canolbwyntio ar faterion yr wyf wedi ymateb iddynt yn flaenorol a lle mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn glir. Mae'r polisi addysg, a pherthynas Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda llywodraeth leol a disgwyliadau'r Llywodraeth ohoni, wedi newid yn sylweddol er 2006 pan gyhoeddwyd Adroddiad cyntaf y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion. Mae angen ystyried ariannu ysgolion yn y cyd-destun datblygol hwnnw. Mae fy ymatebion yn cyfeirio at y cyd-destun ehangach lle mae angen deall ariannu ysgolion.

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dulliau o ariannu ysgolion er mwyn cael gwared ar yr aneglurder, y cymhlethdod a'r gwahaniaethau yn y system bresennol, gwella'r broses o ymateb i'r anghenion presennol ac anghenion y dyfodol, a chanolbwyntio ar y canlyniadau y ceisir eu cyflawni. Rydym hefyd yn argymell y dylid cael system graffu gadarn ar gyfer y dulliau newydd o ddosbarthu cyllid, yn ogystal â chyhoeddi amserlen ar gyfer gweithredu er mwyn gallu monitro'r cynnydd.**

Rwyf yn derbyn yr **argymhelliad cyntaf** mewn egwyddor. Byddwn yn parhau i ymdrechu i wella eglurder gwybodaeth a'r ddealltwriaeth o sut y ceir cyllid i ysgolion. Er hynny, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barod i gynnal adolygiad sylfaenol o'r peirianweithiau ariannu oherwydd bod hyn yn ddiangen. Ni chaiff ysgolion eu hariannu yn y modd y mae'r adroddiad yn ei awgrymu. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw mai llywodraeth leol sydd yn y sefyllfa orau i gynnal ysgolion, eu trefnu a'u hariannu. Mae llywodraeth leol yn gyfrifol am reoli a chyflenwi amrywiaeth eang o wasanaethau lleol; un o'r gwasanaethau hynny yw ysgolion. Yn unol â hynny, ni ellir trin cyllid ysgolion (ac eithrio arian chweched dosbarth) a chyllid llywodraeth leol fel endidau ar wahân; pwynt y mae'n ymddangos nad yw rhai o'r rheini y rhoddasant dystiolaeth gerbron y Pwyllgor yn ei ddeall.

Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gosod y cyfeiriad strategol eang ar gyfer addysg; darparu'r cyd-destun cyfreithiol a'r macro-bolisi a sicrhau bod llywodraeth leol yn gweithio gyda ni yn y fframwaith hwnnw. Nid yw micro-reoli cyflenwi'n rôl i Lywodraeth y Cynulliad ac mae hynny, fel arfer, yn cynnwys materion adnoddau. Mae'r fframwaith rheoleiddio yn sefydlu'r egwyddorion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu defnyddio wrth ddosbarthu cyllid i ysgolion. Mae'r rheoliadau'n glir ac yn gyson ac maent yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth i ffactorau sbarduno pwysig megis niferoedd disgyblion neu amddifadedd a theneurwydd poblogaeth, er enghraifft.

Mae'n ofynnol i awdurdodau gael ffora cyllideb ysgolion sy'n caniatáu mewnbwn oddi wrth ysgolion cyn pennu'u cyllideb ysgol bob blwyddyn, ond yn y pendraw mater i awdurdodau

unigol yw'r penderfyniadau yng ngoleuni'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ar draws pob gwasanaeth y maent yn gyfrifol amdano.

Mae i'r trefniadau hyn gymhlethdodau ond dim ond y cyfryw rai sy'n angenrheidiol i fodloni'r anghenion gwahanol yn y gymuned addysg yng Nghymru ac i ganiatáu disgresiwn digonol er mwyn i awdurdodau lleol ariannu, trefnu a chefnogi ysgolion yn y modd gorau, ym marn y penderfynwyr lleol. Mae'n anochel bod gwneud penderfyniadau'n lleol yn esgor ar raddau o anghyfartalwch; y dewisiadau amgen, y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu gwrthod, yw ariannu ysgolion yn uniongyrchol neu sefydlu fformiwla ariannu genedlaethol fanwl y mae'n rhaid i bob awdurdod ei defnyddio. Ni ddylid drysu cymhlethdod gyda hyblygrwydd a disgresiwn lleol i wneud penderfyniadau.

Er hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod angen i lywodraeth leol fod yn ymatebol a bod angen canolbwyntio ar yr angen presennol a'r angen yn y dyfodol. Er mwyn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, rydym yn cyflwyno cytundebau canlyniadau i awdurdodau lleol ar gyfer pob maes cyflenwi gwasanaethau. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn craffu ar berfformiad awdurdodau yn eu herbyn a byddwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Dychwelaf at hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr ymateb hwn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth gynnar i ni am ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid. Yn ogystal â cheisio gwella pa mor agored yw'r wybodaeth am grantiau addysg a chael gwared ar y fiwrocratiaeth yn y broses o'u gweinyddu, dylai'r Llywodraeth hefyd geisio sicrhau nad yw'r grantiau'n cael eu defnyddio'n amhriodol. Yn lle hynny, dylid cael system fwy cynaliadwy sydd wedi'i thargedu'n well.**

Rwyf yn derbyn **ail argymhelliad** y pwyllgor er bod digwyddiadau wedi'i oddiweddyd gan fod fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid wedi'i gyhoeddi ar 14 Medi. Yn yr ymateb hwnnw, derbyniodd y Llywodraeth holl argymhellion y Pwyllgor Cyllid namyn un gan gynnwys ymrwymiad i wella gwybodaeth am y grantiau penodol presennol ynghyd ag adolygiad o'r trefniadau protocol ar gyfer defnyddio arian grant penodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru wella pa mor agored yw'r wybodaeth a gyhoeddir am ariannu ysgolion yng Nghymru, yn ogystal â chysondeb y wybodaeth honno a'r gallu i gymharu. Dylid gwneud hynny yng nghyd-destun yr arian a ddosberthir i awdurdodau lleol a'r arian a ddosberthir i'r ysgolion yn eu tro, a dylid gwella hefyd y gofynion ar gyfer cyhoeddi adroddiadau am wariant ar addysg.**

O safbwynt y **trydydd argymhelliad,** yr wyf yn ei dderbyn mewn egwyddor, byddwn yn amlygu eto, fel y gwneuthum yn fy nhystiolaeth, fod Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud llawer i sicrhau bod y wybodaeth a gyhoeddir yn dryloyw, yn gyson a bod modd ei chymharu. Gwnawn welliannau pellach os credwn eu bod yn angenrheidiol. Rwyf yn fodlon bod y sefyllfa bresennol yn briodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Mae monitro ac asesu parhaus yn rhan o raglen waith fy swyddogion.

**Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol o anghenion refeniw ysgolion a fyddai'n sail i gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, a hynny er mwyn pennu isafswm y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol ei wario ar addysg.**

Rwyf yn gallu derbyn yn rhannol **bedwerydd argymhelliad** y pwyllgor. Mae angen i Awdurdodau Lleol a Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn i wasanaethau addysg, ysgolion yn benodol, gael eu cynnal yn dda a gwella. Ni allaf er hynny gytuno â'r angen am adolygiad annibynnol nac â nod benodol yr adolygiad hwnnw sef cytuno ar bennu isafswm y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol ei wario ar addysg. Gwnaed argymhelliad tebyg gan y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion a byddai bwrw argymhelliad o'r fath yn ei flaen yn torri ar draws y rhaglenni gwelliant sylweddol a ddefnyddir i drawsnewid ein system ysgolion a byddai'n anwybyddu'r ffaith bwysig iawn ei bod yn gwbl briodol cael gwahaniaethau.

Nid yw'n bosibl bod o blaid democratiaeth leol ac yn gefnogol i rôl awdurdodau lleol yn cyflenwi gwasanaethau ac yna disgwyl gweld dim gwahaniaethau mewn lefelau gwariant na threfniadau dirprwyo ar gyfer gwasanaeth unigol megis addysg. Ceir bob amser wahaniaethau. Mae'n briodol wrth gwrs i gyrff megis y rheini y dyfynnir eu tystiolaeth yn yr adroddiad godi cwestiynau ynghylch a yw awdurdodau'n neilltuo cyfran deg o'r hyn a dderbyniant ar gyfer addysg ond rhaid cyfeirio'r cwestiynau hynny at bob awdurdod lleol yn unigol.

Mae pethau wedi symud ymlaen yn sylweddol ers adroddiad cyntaf y pwyllgor gyda ffocws llawer llymach ar yr hyn a ddisgwyliwn oddi wrth lywodraeth leol ac ysgolion. Rydym wedi cymryd camau radical i adnewyddu ac adfywio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth Leol, mewn ffyrdd sy'n parchu ein hagenda strategol genedlaethol a'r disgresiwn lleol a'r ymreolaeth y mae ar awdurdodau lleol eu hangen os ydynt am wasanaethau pobl yn dda. Bydd fy nghydweithiwr y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ymdrechu i grisialu hyn mewn dealltwriaeth ffurfiol gydag awdurdodau lleol Cymru yn fuan. Bydd y berthynas aeddfed hon yn canolbwyntio nid ar brosesau na mewnbynnau ond ar sicrhau canlyniadau lleol o ansawdd a byddwn ni yn ein tro yn crisialu'r manylion hynny mewn cytundebau canlyniadau a gaiff eu datblygu'n gydsyniol gyda phob awdurdod lleol. Bydd y cytundebau hyn yn gwneud blaenoriaethau cenedlaethol – gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer addysg ysgolion – yn gwbl gydnaws â'r gallu i gyflenwi ac ag anghenion lleol. Drwy gyfrwng y ffocws hwn ar ganlyniadau byddwn yn darparu i lywodraeth leol y rhyddid a'r hyblygrwydd cynyddol y mae arnynt eu hangen i wella perfformiad ar draws pob sector gwasanaeth y maent yn gyfrifol amdano. Nid oes angen adolygiad. Mater i lywodraeth leol benderfynu yn ei gylch yw ariannu ysgolion fel gyda phob maes gwasanaeth arall a drwy gyfrwng yr is-grŵp dosbarthu mae prosesau monitro wedi'u sefydlu i sicrhau cydymffurfiaeth.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Croesawn barodrwydd y Gweinidog i dderbyn sylwadau am wella'r wefan ar ariannu ysgolion, ac argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ganfod barn rhanddeiliaid ac adolygu pa mor hwylus a rhyngweithiol yw'r wefan er mwyn sicrhau ei bod yn addas i'w diben.**

Fel y mae **pumed argymhelliad** y pwyllgor yn ei nodi rwyf yn fodlon cael adborth am adran ariannu ysgolion gwefan Llywodraeth y Cynulliad. Yn ychwanegol at hyn, bydd fy swyddogion yn edrych unwaith eto ar leoliad y tudalennau yn safle ehangach y Cynulliad er mwyn gwneud unrhyw welliannau sy'n bosibl.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod modd gweld yn glir pa fuddsoddi cyfalaf sy'n cael ei wneud ar ysgolion, ac er mwyn sicrhau bod y cyllid a neilltuwyd yn cael ei ddefnyddio'n llawn ar wariant cyfalaf ar ysgolion.**

Derbynnir **chweched argymhelliad** y pwyllgor, sef bod Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod modd gweld yn glir pa fuddsoddi cyfalaf sy'n cael ei wneud ar ysgolion a bod cyllid a neilltuwyd yn cael ei ddefnyddio'n llawn ar wariant cyfalaf ar ysgolion. Mae gwaith i wneud hyn eisoes yn mynd rhagddo'n llwyddiannus drwy ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Bydd y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn rhaglen waith hirdymor i wella ac ailadeiladu ysgolion ledled Cymru. Bydd y rhaglen yn newid sylweddol yn y buddsoddiad strategol mewn addysg yng Nghymru; gan symud oddi wrth brosiectau unigol at ddull gweithredu seiliedig ar raglen ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf mewn ysgolion. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu'r rhaglen mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, fforwm a chyrff eglwysig. Mae'r trefniant partneriaeth hwn yn golygu cyd-gynhyrchu polisïau ac mae'n golygu bod angen cynnal cyswllt agos ag Awdurdodau Lleol.

Bydd y rhaglen fuddsoddi newydd hon yn ceisio targedu buddsoddiad yn lle bynnag sy'n barod amdano; ond yn bwysicach lle gwelwyd bod angen. Mae'r meini prawf ar gyfer y cyllid hwn a dargedir hefyd yn cael eu llunio mewn partneriaeth â CLILC. Mae'r rhaglen hefyd wedi cychwyn arolwg o ystadau i ganfod cyflwr pob ysgol yng Nghymru. Bydd yr arolwg hwn yn cynorthwyo canfod yr angen am fuddsoddi. Bydd y rhaglen hefyd yn gobeithio cynorthwyo Awdurdodau Lleol i ganfod ffyrdd o gyfuno cyllid oddi wrth APADGOS, cyllid cyfalaf yr Awdurdodau Lleol eu hunain, buddsoddiad Ewropeaidd os yn berthnasol, a gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill ym maes iechyd, hamdden, gwasanaethau cymdeithasol er mwyn creu cyfleusterau ar gyfer y gymuned gyfan.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhellwn y dylai arferion da Llywodraeth Cymru ar gyfer fforymau ysgolion gynnwys canllawiau clir ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau disgwyliedig, a dylid seilio'r arferion hynny ar argymhellion y Sefydliad**

**Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg er mwyn sicrhau'r canlyniadau ariannu gorau i ysgolion.**

Mae **seithfed argymhelliad** y pwyllgor yn adlewyrchu'n agos iawn fy nghynlluniau i ddiwygio'r canllawiau ar fforymau ysgolion ac, o'r herwydd, rwy'n fodlon ei dderbyn yn gyflawn. Bu i mi gomisiynu'r adolygiad o weithrediad fforymau ysgolion yng Nghymru er mwyn canfod sut y mae'r system yn gweithio a sut y gellid gwella. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion wrthi'n drafftio dogfen ganllaw newydd ar yr arferion gorau, dogfen a fydd wrth gwrs yn myfyrio ar yr holl negeseuon a godwyd yn yr adroddiad a gomisiynais oddi wrth SCYA – bu i ni gomisiynu'r gwaith at yr union ddiben hwnnw.

**Goblygiadau ariannol:** Dim**.** Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys eisoes yn rhaglen waith fy swyddogion ac mae'r adnoddau presennol yn talu'r costau.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso effaith y ddau fodel gwahanol o ariannu addysg cyn-16 ac ôl-16 ar gydweithredu wrth ddarparu addysg 14-19.**

Rwyf yn derbyn yr **wythfed argymhelliad** mewn egwyddor. Rwyf yn cydnabod bod y cynllun 14-19 yn pontio addysg statudol ac addysg anstatudol a ariennir gan wahanol ddulliau. Er hynny, cynamserol fyddai cynnal adolygiad ar hyn o bryd. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd ar 14-19 ac mae'i lwyddiant yn ddibynnol ar ymddygiad y rheini sy'n gweithredu'r system cymaint ag ar y system ei hun. Mae'r polisi'n seiliedig ar y rhagosodiad bod angen i awdurdodau lleol a darparwyr addysg weithio'n anhunanol, yn effeithlon ac yn effeithiol a rhoi anghenion dysgwyr yn gyntaf. Mae'r broses o drawsnewid y system yn parhau – mae llawer i'w wneud o hyd – a gwrthgynhyrchiol fyddai edrych ar elfennau ategol y system ar eu pen eu hunain ar hyn o bryd.

Cydweithredu yw'r gair pwysig yn y byd addysg yng Nghymru ynghyd â thema graidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gweithio'n well ac yn graffach yn ein nod i godi lefelau cyrhaeddiad a gwella cyfleoedd dysgu. Rhaid i'r cydweithredu rhwng sefydliadau, ysgolion, ar draws ffiniau daearyddol a ffiniau sectorau ac ymysg cydweithwyr wella. Bwriedir y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i ymwreiddio gwaith cydweithredol ledled addysg yng Nghymru ar bob lefel yn y system; mae gan y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer darparwyr ôl-ysgol nod tebyg. Drwy gyfrwng ein hegwyddorion diwygio tair lefel bydd yr FfEY yn caniatáu ar gyfer rhannu gwybodaeth, arbenigedd a'r arferion gorau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ac unrhyw gyfuniad yng nghyswllt hynny.

Ni fydd ond yn briodol cynnal adolygiad o'r systemau ariannu ategol ar ôl i 14-19 a'r FfEY, a'r ffyrdd cydweithredol o weithio sy'n gynhenid iddynt, gael cyfle i ymwreiddio ac ar ôl i'w llwyddiant cymharol gael ei werthuso'n briodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru werthuso'n ofalus y cynnydd a'r broses o roi Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar waith, gan gynnwys ariannu'r cwricwla**

**lleol a'r nifer o ddisgyblion sydd wedi'u rhwystro rhag dilyn y cwrs o'u dewis o ganlyniad i "wariant anghymesur".**

Rwyf yn fodlon derbyn **nawfed argymhelliad** y Pwyllgor. Byddwn wrth gwrs yn monitro gweithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn agos iawn er mwyn sicrhau y cynigir i bobl ifanc y nifer leiaf o opsiynau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn ôl-16. Darperir y wybodaeth hon ar hyn o bryd fel rhan o broses Cynllun Datblygu Rhwydwaith Flynyddol 14-19, a gwnaed darpariaeth i'r wybodaeth hon gael ei monitro drwy gyfrwng cronfa ddata ar-lein Gyrfa Cymru. Ceir hefyd gyswllt rheolaidd gydag Estyn. Mae'n hanfodol bod galw'r dysgwyr yn arwain 14-19 a bod dilyniant iddynt o ran y ddarpariaeth, er nid o anghenraid o ran y darparwr. Ceir, yn naturiol, adegau pryd nad yw'r ymarferol bosibl cynnig i ddysgwr bopeth y byddai ef/hi'n ei hoffi - yn union fel sy'n digwydd mewn unrhyw fodel dewis cwricwlwm. Fodd bynnag, rwy'n credu mai anghyffredin iawn yw i 'wariant anghymesur' yrru'r broses gwneud penderfyniadau.

**Goblygiadau ariannol:** Dim**.** Mae monitro a gwerthuso gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn rhan allweddol o raglen waith sy'n bodoli eisoes ac, felly, defnyddir yr adnoddau presennol i dalu'r gost.

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i wneud cynnydd wrth ddatblygu perthynas gynaliadwy a symbiotig rhwng amcanion polisi addysg a'r system ariannu ysgolion sy'n cyflawni'r amcanion hynny.**

Rwyf yn falch iawn o fynegi fy nghefnogaeth i'r nodau sydd y tu ôl i **ddegfed argymhelliad** y pwyllgor. Rwyf wedi esbonio bod y Llywodraeth yn symud tuag at system o gytundebau canlyniadau ac mai dyma sut y bydd perfformiad llywodraeth leol yn cael ei fonitro a'i reoli ac y bydd hyn yn sicr o gynnig newid yn y berthynas rhwng yr amcanion polisi a'r modd y caiff cyllid ei ddyrannu i'r rheini sy'n gyfrifol am eu cyflenwi. Rwyf yn ceisio cysoni'r mewnbynnau'n briodol - y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a'r pwyslais y mae angen i awdurdodau ei roi ar drefniadaeth a pherfformiad ysgolion, gyda'r gwelliant yng nghyraeddiadau dysgwyr, mewn modd nas gwelwyd o'r blaen mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae addysg ar flaen y gad gyda'r gwaith hwn ac edrychwn ymlaen at weld y manteision, ond bydd yn rhaid cerdded cyn rhedeg.

**Goblygiadau ariannol:** Dim**.**